# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 3 Chwefror 2026
## Tabled on 3 February 2026

# Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)
# Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill

**Delyth Jewell** **53**

Page 5, after line 26, insert a new section—

'[ ] **Environmental protection and improvement report**

(1) The Welsh Ministers must prepare and publish a report under this section (an "environmental protection and improvement report") before the end of the period of 5 years beginning with the day on which this Act comes into force.

(2) The environmental protection and improvement report must set out—

(a) the Welsh Ministers' assessment of the impact Part 1 of this Act has had on contributing to the environmental objective;

(b) steps the Welsh Ministers intend to take (which may include legislative steps) to increase the effectiveness of Part 1 of this Act in contributing to the environmental objective.

(3) The Welsh Ministers may prepare and publish subsequent reports setting out the matters in subsection (2) from time to time.

(4) The reports published under subsections (1) and (3) must be laid before Senedd Cymru.'.

Tudalen 5, ar ôl llinell 28, mewnosoder adran newydd—

'[ ] **Adroddiad diogelu a gwella'r amgylchedd**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad o dan yr adran hon ("adroddiad diogelu a gwella'r amgylchedd") cyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym.

(2) Rhaid i'r adroddiad diogelu a gwella'r amgylchedd nodi—

(a) asesiad Gweinidogion Cymru o'r effaith y mae Rhan 1 o'r Ddeddf hon wedi ei chael ar gyfrannu at yr amcan amgylcheddol;

(b) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd (a gaiff gynnwys camau deddfwriaethol) i gynyddu effeithiolrwydd Rhan 1 o'r Ddeddf hon wrth gyfrannu at yr amcan amgylcheddol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau dilynol sy'n nodi'r materion yn is-adran (2) o bryd i'w gilydd.

(4) Rhaid i'r adroddiadau a gyhoeddir o dan is-adrannau (1) a (3) gael eu gosod gerbron Senedd Cymru.'.

**Delyth Jewell** **54**

Section 35, page 18, after line 11, insert—

**'[ ] Duty to make regulations setting targets: abundance of swifts**

(1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target aimed at increasing the abundance of swifts in Wales through the incorporation of swift bricks in new housing developments.

(2) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 18 months beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.'.

Adran 35, tudalen 18, ar ôl llinell 12, mewnosoder—

**'[ ] Dyletswydd i wneud rheoliadau sy'n gosod targedau: toreithrwydd gwenoliaid duon**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed sydd â'r nod o gynyddu toreithrwydd gwenoliaid duon yng Nghymru drwy gynnwys briciau gwenoliaid duon mewn datblygiadau tai newydd.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys y rheoliadau sy'n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 18 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) y Cydsyniad Brenhinol.'.